# Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu
# Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cymeradwyo** 29 Mai 2025 (Yn weithredol o 1 Mehefin 2025) | **Fersiwn:** 10 |
| **Dyddiad Adolygu:** Yn flynyddol | |

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran B, 3 a 7 o'r Rheolau Sefydlog, bydd y Bwrdd yn enwebu Pwyllgor(au) bob blwyddyn, a fydd yn ymdrin ag Ansawdd ac Iechyd a Diogelwch. Bydd y Pwyllgor hwn yn cael ei adnabod fel y **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar bob agwedd sydd â'r nod o sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflawni gofynion Adrannau B, 3 a 6 o'r Rheolau Sefydlog, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd enwebu Pwyllgor sy'n ymdrin ag Iechyd a Diogelwch.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor.

## 2 Diben

Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, sef ("Y Pwyllgor") yw:

- **Darparu cyngor** amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd y cyhoedd a rhaglenni a ddarperir i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth, gan gynnwys gwella iechyd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y Datganiad Ansawdd Blynyddol ac, os yw'n briodol, ei argymell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.

- **Sicrhau'r** Bwrdd ynghylch a oes trefniadau effeithiol mewn perthynas â diogelu a gwella ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth iechyd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau/yr unigolyn/y boblogaeth yn unol â'i amcanion datganedig a'r gofynion a'r safonau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru a chyrff

perthnasol eraill

- **Sicrhau'r** Bwrdd mewn perthynas ag effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y sefydliad â'r gofynion iechyd diogelwch, yn unol â'i amcanion datganedig a'r gofynion a'r safonau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru a chyrff perthnasol eraill

- **Cymeradwyo** polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill ar ran y Bwrdd yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.

**3. Pwerau Dirprwyedig**

**Cylch gorchwyl**

Rôl y Pwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer meysydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys sicrhau gwelliannau datblygu ac ansawdd priodol.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Rheoli Ansawdd (Gwelliant, Rheolaeth a Sicrwydd)
- Iechyd a Diogelwch
- Gwella Iechyd ac Iechyd y Boblogaeth
- Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau
- Archwilio Clinigol
- Gweithio i Wella, (gan gynnwys Dyletswydd Gonestrwydd a Hawliadau)
- Digwyddiadau Difrifol
- Atal a Rheoli Heintiau
- Diogelu
- Rheoli Risg (o fewn y cylch gwaith)

Er mwyn cyflawni hyn, bydd gan y Pwyllgor raglen waith wedi'i chynllunio i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni darpariaethau ei Gylch Gorchwyl yn llawn ar draws cyfnod ei raglen waith.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cytuno ar y rhaglen yn flynyddol, a bydd yn ei chyflwyno i'r Bwrdd er gwybodaeth iddo.

**Sicrwydd**

O ran ei rôl o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrwydd bod y swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith yn bodloni'r safonau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru, ac yn rhoi sylwadau ar ddibynadwyedd ac uniondeb y swyddogaethau hyn.

Bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau cyffredinol sydd ar waith i fodloni gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, ac yn rhoi sylwadau ar ddibynadwyedd a chywirdeb y swyddogaethau hyn.

Bydd y Pwyllgor yn ceisio **sicrwydd** ynghylch y canlynol:

1.1 Y trefniadau llywodraethu cadernid (gan gynnwys rheoli risg) ar gyfer y systemau a'r prosesau sydd ar waith sy'n dangos ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd ar draws yr holl wasanaethau/rhaglenni a swyddogaethau a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
- Rhaglenni Iechyd y Boblogaeth a Gwella Iechyd

Sicrhau eu bod wedi'u dylunio'n briodol, a'u bod yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau y darperir gwasanaethau/rhaglenni iechyd y cyhoedd diogel o ansawdd uchel, a swyddogaethau ar draws holl weithgareddau'r Sefydliad.

1.2 Cadernid y systemau a'r prosesau sydd ar waith sy'n dangos ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd ar draws yr holl wasanaethau/rhaglenni a swyddogaethau a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.3 Effeithiolrwydd fframweithiau, strategaethau a chynlluniau'r Sefydliad ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau/rhaglenni a swyddogaethau diogel o ansawdd uchel a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y Fframwaith Ansawdd ac Effaith.

1.4 Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y rhain yn gyson â chyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd ac unrhyw ofynion a safonau a osodir ar gyfer cyrff GIG Cymru a gwelliannau i safon ansawdd a diogelwch ar draws y sefydliad cyfan.

1.5 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli ansawdd ar draws y sefydliad wrth gefnogi galluedd a chapasiti sefydliadol gan arwain at ddiwylliant o wella ansawdd yn barhaus.

1.6 Y goblygiadau ar gyfer ansawdd a diogelwch sy'n deillio o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol y Sefydliad, neu rai ei randdeiliaid a'i bartneriaid, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o unrhyw Gyd-(is)bwyllgorau'r Bwrdd, er enghraifft y Strategaeth Ystadau pan fyddai goblygiadau o ran ansawdd a diogelwch.

1.7 Bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i atal, darganfod a chywiro afreoleidd-dra neu ddiffygion yn ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau, rhaglenni a swyddogaethau, ac yn benodol:

1.7.1 ffynonellau sicrwydd mewnol, sy'n cynnwys archwilio ansawdd/clinigol, fod gan archwilio mewnol y capasiti a'r gallu i gyflawni mewn is-adrannau/timau;

1.7.2 bod argymhellion a wneir gan adolygwyr mewnol ac allanol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ei gynllun gwaith, a'r meysydd ffocws o fewn ei gylch gwaith.

1.7.3 bod tystiolaeth o ddiwylliant o adrodd a dysgu gwersi gyda phwyslais ar wella'n barhaus, yn deillio o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, digwyddiadau, Digwyddiadau Anffafriol Difrifol, pryderon, hawliadau ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, a Diogelwch Iechyd;

1.8 Bod trefniadau llywodraethu/llywodraethu clinigol effeithiol ar waith ar gyfer meysydd cyfrifoldeb statudol, gan gynnwys Gweithio i Wella, Atal a Rheoli Heintiau, Diogelu, ac ymatebwyr Categori 1/y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a Phrofiad Defnyddwyr Gwasanaethau.

1.9 Darparu goruchwyliaeth, craffu a sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth, canllawiau neu fentrau perthnasol, gan gynnwys Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae hyn yn cynnwys sicrwydd bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd fel rhan o'r ddeddf hon.

1.10 Y trefniadau sydd ar waith i fonitro llais defnyddwyr gwasanaethau a/neu'r dinesydd fel y rhai sy'n ganolog i wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, swyddogaethau a rhaglenni. Darperir hyn drwy amrywiaeth o ffynonellau megis ymgysylltu, arolygon, pryderon, digwyddiadau a threfniadau rhagweithiol i gael adborth.

1.11 Monitro a, lle bo'n briodol, nodi'r risgiau hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a, lle bo'n briodol, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol fod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

1.12 Am sicrwydd ar y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau.

1.13 Ceisio sicrwydd bod trefniadau ar waith i alluogi'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol a gorfodol o ran iechyd, diogelwch a llesiant.

1.14 Derbyn adroddiadau am ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, digwyddiadau niweidiol difrifol a hawliadau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant staff

1.15 Monitro a, lle bo'n briodol, nodi'r risgiau hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a, lle bo'n briodol, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol fod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

**Perfformiad a Gwella GIG Cymru**

1.16 Ceisio sicrwydd ynghylch y meysydd cydymffurfiaeth llywodraethu perthnasol, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel yr amlinellir yn Atodlen Sicrwydd Perfformiad a Gwella y GIG. Bydd hyn yn cynnwys cydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd.

**Penderfyniadau Dirprwyedig**

Bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd o ran ei gyfrifoldebau am lywodraethu (gan gynnwys risg a rheoli) drwy **adolygu** a **chymeradwyo** fel y bo'n briodol:

1.17 Gweithio i Wella (Cwynion, Hawliadau a Digwyddiadau), Polisi a Gweithdrefnau, Canllawiau a Phrotocolau cysylltiedig

1.18 Polisïau yn ymwneud â:

- Llywodraethu Clinigol/Diogelwch Cleifion,
- Rheoli Meddyginiaethau (gan gynnwys imiwneiddiadau a brechiadau)
- Gwybodaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd/Rhanddeiliaid
- Atal a Rheoli Heintiau
- Diogelu, Trais ac Ymddygiad Ymosodol/Diogelwch Personol
- Iechyd a Diogelwch, Tân, Rheoli Gwastraff a Dŵr

**Gwneud Sylw / Argymhelliad i'r Bwrdd**

O ran ei rôl wrth ddarparu cyngor i'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn gwneud **sylwadau ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd yn benodol** ar y canlynol:

1.19 Datblygu a mabwysiadu set o ddangosyddion allweddol o ansawdd a gwelliant, y bydd perfformiad y Sefydliad yn cael ei asesu yn rheolaidd yn eu herbyn ac y bydd yn adrodd arnynt drwy drefniadau adrodd, megis y Datganiad Ansawdd Blynyddol

## 4. Is-bwyllgorau/grwpiau

Gall y Pwyllgor sefydlu is-grwpiau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei rôl ond ar adeg adolygu'r ddogfen hon nid oedd unrhyw is-bwyllgorau yn weithredol.

Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch, y Grŵp Diogelu a'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau yn adrodd i'r Tîm Gweithredol Busnes, ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Diogelwch a Gwella Ansawdd.

## 5. Mynediad

Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol fynediad anghyfyngedig a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar unrhyw adeg, ac i'r gwrthwyneb.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ag Archwilio Mewnol ac, fel y bo'n briodol, gynrychiolwyr enwebedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru heb bresenoldeb swyddogion ar o leiaf un achlysur bob blwyddyn. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella fynediad rhesymol at y Tîm Gweithredol ac uwch staff perthnasol eraill.

## 6. Aelodaeth, Mynychwyr a Chworwm

### 6.1 Aelodau

O leiaf dri aelod, yn cynnwys:

Cadeirydd Cyfarwyddwr Anweithredol

Aelodau Cyfarwyddwyr Anweithredol x 2

Ni fydd Cadeirydd y sefydliad yn aelod o'r Pwyllgor, ond gall gael ei wahodd gan Gadeirydd y Pwyllgor fel sy'n briodol.

Gall y Pwyllgor hefyd gyfethol aelodau allanol annibynnol ychwanegol o'r tu allan i'r sefydliad i ddarparu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd.

### 6.2 Mynychwyr

**Yn Bresennol:**

Bydd yr aelodau staff canlynol (neu eu dirprwyon) yn mynychu'r Pwyllgor fel mater o drefn i gyfrannu'n weithredol ato ac i roi sicrwydd:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig (Arweinydd Gweithredol ar y Cyd)
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Cyd-Arweinydd Gweithredol)
- Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid (Arweinydd Gweithredol Iechyd a Diogelwch) neu ddirprwy enwebedig
- Pennaeth Risg
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
- Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (neu ddirprwy enwebedig)

Dylai aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi.

Bydd gan y Prif Weithredwr wahoddiad parhaol i'w fynychu a bydd yn derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Bydd hyd at ddau Gynrychiolydd o'r Undebau Llafur yn cael gwahoddiad parhaol i fynychu'r Pwyllgor. Yn ogystal â hyn, gwahoddir eraill o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r sefydliad a ddylai fod yn bresennol ym marn y Pwyllgor, gan ystyried y materion dan ystyriaeth ym mhob cyfarfod.

**6.3 Cworwm**

Mae’n rhaid i o leiaf **ddau** aelod fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Pwyllgor, a dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd y Pwyllgor neu'n Is-gadeirydd (os bydd un wedi'i benodi).

**7. Amlder y Cyfarfodydd**

Yn gyffredinol, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith yn ystod y flwyddyn neu fel arall fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor yn barnu ei fod yn angenrheidiol - yn gyson â chynllun blynyddol Busnes Bwrdd y Sefydliad.

**8. Perthnasoedd ac atebolrwyddau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau/Grwpiau**

Rhaid i'r Pwyllgor fod â pherthynas effeithiol rhwng holl Bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Bwrdd er mwyn iddo ddeall yn llawn y system sicrwydd ar gyfer y Bwrdd cyfan.

Mae'n bwysig iawn bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn parhau i fod yn ymwybodol o'i rôl benodol ac nad yw'n ceisio cyflawni rôl pwyllgorau eraill.

**9. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd**

Bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Bwrdd ar ei waith i gefnogi cylch gwaith y Pwyllgor er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod y Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl yn effeithiol.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd drwy adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, pan fo unrhyw faterion arwyddocaol yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

**10. Perthnasedd y Rheolau Sefydlog i Fusnes y Pwyllgor**

Mae’r gofynion ar gyfer cyflawni busnes fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y sefydliad yr un mor berthnasol i weithrediad y Pwyllgor, ar wahân i’r meysydd canlynol:

- Cworwm *(gweler paragraff 6.3)*